# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

# POLISI DEFNYDD ARFAETHEDIG AR GYFER TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI

**1. 1. CYFLWYNIAD**

1. 1.1 Diben y polisi hwn yw nodi sut fydd y Cyngor yn ymdrin â thrwyddedu, adnewyddu a throsglwyddo cerbydau hacni yn dilyn Dyfarniad yr Uchel Lys - Cyngor Dinas Newcastle v Berwick upon Tweed [2008] EWHC 2369 (Admin). Bydd y Cyngor, wrth ystyried ceisiadau newydd ar gyfer trwyddedau cerbydau hacni yn pennu’r ceisiadau yn unol â’r egwyddorion a gynhwysir yn nyfarniad yr achos uchod ac yn eu nodi isod yn y rhesymau dros y polisi.

1. 1.2 Bydd y Cyngor yn pennu ceisiadau yn ôl eu cryfderau ond yn gosod diogelwch y cyhoedd cyn pob ystyriaeth arall.

## 2. 2. CEISIADAU AR GYFER GWARANT TRWYDDED CERBYD HACNI NEWYDD

1. 2.1 Disgwylir i ymgeiswyr trwydded newydd arddangos gwir fwriad i weithredu, yn bennaf oddi fewn i ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yn unol ag amodau’r drwydded y mae’r cais yn cael eu gwneud.

1. 2.2 Bydd rhagdybiaeth na fydd ymgeiswyr sy’n bwriadu gweithredu’n bennaf oddi fewn i ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn derbyn trwydded cerbyd hacni yn eu hawdurdodi i wneud hynny. Bydd pob cais yn cael ei benderfynu ar sail ei gryfderau.

1. 2.3 Hyd yn oed pan fydd yr ymgeisydd yn bwriadu gweithredu’n bennaf oddi fewn i ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful; os bwriedir masnachu mewn ardal awdurdod arall am gyfnod sylweddol o amser (a’i fod yn ymdebygu y bydd pwrpas y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd yn cael ei beryglu) yna, yn destun i gryfderau cais penodol, bydd rhagdybiaeth y bydd y cais yn cael ei wrthod.

## 3. 3. CEISIADAU AR GYFER ADNEWYDDU TRWYDDED CERBYD HACNI

1. 3.1 Disgwylir i ymgeiswyr sydd am adnewyddu eu trwyddedau hysbysu’r Cyngor o’u bwriad i weithredu’n bennaf oddi fewn i ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, o dan amodau’r drwydded y mae’r cais yn cael ei gwneud.

2. 3.2 Bydd rhagdybiaeth na fydd ymgeiswyr sy’n bwriadu gweithredu’n bennaf oddi fewn i ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn derbyn trwydded cerbyd hacni yn eu hawdurdodi i wneud hynny. Mae Adran 60 o Ddeddf Darpariaethau Amrywiol Llywodraeth Leol 1976 [LG(MP)A 1976] yn rhoi’r hawl i’r Cyngor wrthod adnewyddu trwydded am unrhyw reswm dilys. Bydd pob cais yn cael ei benderfynu ar sail ei gryfderau.

2. 3.3 Hyd yn oed pan fydd yr ymgeisydd yn bwriadu gweithredu’n bennaf oddi fewn i ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful; os bwriedir masnachu mewn ardal awdurdod arall am gyfnod sylweddol o amser (a’i fod yn ymdebygu y bydd pwrpas y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd yn cael ei beryglu) yna, yn destun i gryfderau cais penodol, bydd rhagdybiaeth y bydd y cais yn cael ei wrthod.

## 4. 4. CAIS AR GYFER TROSGLWYDDO TRWYDDED CERBYD HACNI

1. 4.1 Mae Adran 49 o Ddeddf Darpariaethau Amrywiol Llywodraeth Leol 1976 yn hawlio y dylai deiliad cerbyd sydd wedi ei drwyddedu ac sydd am ei drosglwyddo i unigolyn arall, gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i’r Cyngor, oddi

fewn 14 diwrnod o’r trosglwyddiad yn cynnwys enw a chyfeiriad perchennog newydd y cerbyd hacni.

1. 4.2 Ni all y Cyngor wrthod cofrestru perchennog newydd os darperir hysbysiad, yn unol ag adran 49 o Ddeddf Darpariaethau Amrywiol Llywodraeth Leol 1976. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol.

2

3. 4.3 Dylai’r perchennog newydd wybod bod rheidrwydd arno, yn unol ag Adran 73 o Ddeddf Darpariaethau Amrywiol Llywodraeth Leol 1976 i ddarparu gwybodaeth i swyddog sydd wedi ei awdurdodi er mwyn iddo fedru gweithredu yn unol â’r ddeddfwriaeth. Os methir â chyflwyno’r wybodaeth y gofynnir amdano, bydd y Cyngor yn ystyried yn ddifrifol os ddylai ymarfer ei bwerau i atal y drwydded o dan adran 60 o Ddeddf Darpariaethau Amrywiol Llywodraeth Leol 1976.

2. 4.4 Disgwylir i berchnogion newydd trwyddedau sydd mewn grym yn barod, arddangos gwir fwriad i weithredu, yn bennaf oddi fewn i ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yn unol ag amodau’r drwydded parthed y cerbyd sy’n cael ei drosglwyddo.

3. 4.5 Lle na fydd perchennog cerbyd hacni sydd wedi ei drwyddedu yn bwriadu gweithredu’n bennaf oddi fewn i ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a/neu ei fod yn bwriadu masnachu mewn ardal awdurdod arall am gyfnod sylweddol a’i fod yn ymdebygu y bydd pwrpas y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd yn cael ei beryglu yna, yn destun i gryfderau cais penodol, ystyrir (naill ai yn ystod y cyfnod adnewyddu neu cynt) a ddylid atal neu ddirymu’r drwydded o dan Adran 60, Deddf 1976. Lle bydd y perchennog newydd yn argymell gweithredu o bellter, o ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, bydd rhagdybiaeth y bydd y drwydded yn cael ei hatal. Bydd pob cais yn cael ei benderfynu ar sail ei gryfderau.

**5. 5. CYFNEWID CERBYDAU**

1. 5.1 Parthed perchnogion sy’n dymuno cyfnewid cerbydau cyfredol sydd wedi eu trwyddedu, os nad oes newid wedi bod ym mwriadau’r perchennog parthed gwneud cais i logi oddi fewn i ardal weinyddol Cyngor Merthyr Tudful, nid oes unrhyw reswm pam na ddylid gwarantu eu cais am drwydded ar gyfer cyfnewid cerbyd. Fodd bynnag, ni fydd ymgeisydd a dderbyniodd ei drwydded gyntaf wedi iddo ddatgelu ei fwriadau i logi oddi fewn neu’n bennaf oddi fewn i ardal weinyddol Cyngor Merthyr Tudful ac nad sydd, wrth wneud cais i gyfnewid cerbyd bellach yn bwriadu gwneud hynny yn derbyn trwydded newydd.

**6. 6. DIRYMU TRWYDDED**

4. 6.1 Lle y caniatawyd trwydded yn unol â’r amodau y mae’r ymgeisydd yn bwriadu eu gweithredu, yn bennaf oddi fewn i ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ond y canfyddir ei fod wedi bod yn masnachu mewn ardal awdurdod arall am gyfnod sylweddol o amser (a’i fod yn ymdebygu y bydd pwrpas y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd yn cael ei beryglu) yna, bydd rhagdybiaeth y bydd y drwydded yn cael ei ddirymu.

**7. 7. AMGYLCHIADAU EITHRIADOL**

1. 7.1 Bydd pob cais yn cael ei benderfynu ar sail ei gryfderau. Fodd bynnag,

bydd y rhagdybiaethau y bydd y defnydd arfaethedig i weithredu'n bennaf oddi fewn i ardal weinyddiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cael eu gwrthbrofi mewn amgylchiadau eithriadol. Nid yw'n bosib nac yn synhwyrol i lunio rhestr o'r hyn allai fod yn amgylchiadau eithriadol ond dylai ymgeisydd sy'n honni fod amgylchiadau eithriadol yn bodoli medru bodloni'r Cyngor na fyddai'n effeithio ar fwriad y ddeddfwriaeth nac ychwaith ar ddiogelwch y cyhoedd petai'r drwydded yn cael ei gwarantu, ei hadnewyddu , ei hatal neu ei dirymu, yn ddibynnol ar yr hyn allai'r amgylchiadau fod.

## 8. 8. RHESYMAU DROS Y POLISI

8.1 Dymuna'r Cyngor sicrhau fod ceisiadau am drwyddedau cerbydau hacni yn cael eu penderfynu yn unol â'r canllawiau a roddwyd gan yr Uchel Lys yn dilyn ei ddyfarniad ar achos Cyngor Dinas Newcastle v Cyngor Berwick upon Tweed [2008]. Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol yn y dyfarniad hwn -

a. a) "Bwriad y system drwyddedu oedd y dylai gael eu gweithredu mewn modd lle mae'r awdurdod sy'n trwyddedu'r cerbydau hacni yw'r awdurdod ar gyfer yr ardal y mae'r cerbydau'n cael eu defnyddio'n bennaf"

a. *b) "Hawl yr awdurdod sy'n trwyddedu yw sicrhau os yw'r ymgeisydd yn bwriadu defnyddio'r cerdydau hacni yn rhannol, yn bennaf neu y tu hwnt i ffiniau ardal yr awdurdod"*

*a. c) "Mae'n rhaid ei fod yn ddymunol i awdurdod sy'n cyflwyno trwyddedau cerbydau hacni fedru cyfyngu cyflwyno trwyddedau i berchnogion a gyrwyr sy'n bwriadu llogi yn ardal yr awdurdod."*

*a. d) "Er na allaf ddweud ei fod yn synhwyrol i warantu trwydded i'r rheini sy'n bwriadu gweithredu eu cerbydau hacni o bellter (y tu allan i ardal yr awdurdod,) nid wyf yn barod i ddweud fod hynny'n anghyfreithlon"*

*a. e) "Bydd ambell i weithredwr yn dymuno defnyddio eu cerbydau mewn sawl awdurdod gwahanol, ac mewn achosion o'r fath, bydd hyblygrwydd wrth ymarfer disgresiwn. Bydd materion tebyg i ble mae'r perchennog wedi ei leoli ac o ble u bydd y mwyafrif o'r busnes yn dod yn faterion allweddol i'w hystyried"*

a. 8.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gofrestru enw perchennog newydd pan fydd deiliad y drwydded yn ei hysbysu fod cerbyd wedi ei drosglwyddo i berchennog newydd. Gallai hyn ddadwneud penderfyniad yr Uchel Lys, oni bai fod camau rhagofalus wedi eu cymryd yn barod. Mae'r paragraff sy'n ymwneud â 'Gwneud Cais i drosglwyddo trwydded cerbyd hacni' wedi ei fwriadu i roi'r Cyngor mewn sefyllfa lle y gall ymateb yn gyfrifol i drosglwyddiad cerbyd hacni ym Merthyr Tudful i rywun arall sy'n gweithredu y tu allan i ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.